Ymholiad:

Mynychodd yr Arolygiaeth Grŵp Llywio ar-lein ar gyfer Prosiectau Gwynt Alltraeth Asedau Cynhyrchu Morgan a Mona. Rhoddodd y cyfarfod ddiweddariad ar y prosiect a diweddariad ar yr ymagwedd at yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA), yn ogystal â throsolwg o gynnydd a'r hyn y cytunwyd arno yn rhan o'r Grwpiau Pynciau Arbenigol. Amlinellodd yr Ymgeisydd hefyd ei ymagwedd arfaethedig at reoli effeithiau sŵn tanddwr ar bysgod a mamaliaid môr (Strategaeth Gosod Seilbyst) a gofynnodd am unrhyw sylwadau ar yr ymagwedd hon.

Cyngor a roddwyd:

Cynigiodd yr Ymgeisydd fod yr adroddiad Gwybodaeth i Lywio Asesiad Priodol (ISAA) yn cael ei rannu'n dair rhan, i helpu i gynhyrchu a llywio'r ddogfen. Byddai rhan 1 yr ISAA yn rhoi trosolwg o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) yn gyffredinol, gwybodaeth gefndir a methodoleg. Byddai rhan 2 yn cyflwyno'r asesiad o effeithiau ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) a byddai rhan 3 yn cyflwyno'r asesiad o effeithiau ar Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau).

Mae'r Arolygiaeth o'r farn bod yr ymagwedd hon yn dderbyniol, yn amodol ar groesgyfeirio clir rhwng gwahanol rannau'r ISAA (fel sy'n ofynnol).

Amlinellodd yr Ymgeisydd pam nad yw o'r farn bod Cynllun Cyfanrwydd Safle (SIP) (gan gynnwys trothwyon diffiniedig ar gyfer effeithiau cronnol gosod seilbyst – 10% mewn tymor penodol, neu 20% ar ddiwrnod penodol) yn briodol i reoli effeithiau sŵn tanddwr o Asedau Cynhyrchu Mona a Morgan. Dywedodd yr Ymgeisydd na ragfynegir y bydd Asedau Cynhyrchu Mona a Morgan yn cyrraedd y trothwy ardal 10% ar gyfer yr ACA llamhidyddion agosaf (h.y. ACA Gogledd Môn Forol), naill ai'n unigol neu ar y cyd â phrosiectau eraill.

Yn lle hynny, mae'r Ymgeisydd yn bwriadu cytuno ar ddull (yn debyg i SIPau) a fyddai'n caniatáu iddo gytuno ar ymagwedd at reoli effeithiau sŵn tanddwr ar ôl cael caniatâd, pan fydd mwy o fanylion adeiladu ar gyfer y prosiectau unigol a mwy o fanylion am brosiectau cronnol yn y rhanbarth yn hysbys. Mae'r Ymgeisydd yn ystyried "Strategaeth Gosod Seilbyst" (enw i'w gadarnhau) fel modd o gyflawni hyn. Byddai'r Strategaeth Gosod Seilbyst yn amlinellu opsiynau lliniaru posibl y gellid eu defnyddio os oes pryderon gweddilliol ynglŷn ag effeithiau cronnol sŵn tanddwr ar ôl mireinio dyluniad y prosiect. Nododd yr Ymgeisydd fod materion o'r fath yn aml yn cael eu cytuno mewn egwyddor yn ystod y cam ymgeisio a bod cytundeb terfynol yn cael ei gyflawni ar ôl cael caniatâd trwy ddyluniad terfynol y prosiect. Dywedodd yr Ymgeisydd y gallai ddarparu cynllun amlinellol, o bosibl, ar gyfer adolygiad dogfennau drafft yn ystod y cam cyn-ymgeisio, fel bod y rhanddeiliaid a'r Ysgrifennydd Gwladol yn gallu bod yn hyderus y bydd hyn yn effeithiol ac yn cael ei gytuno ar ôl cael caniatâd.

Mae'r Arolygiaeth o'r farn bod yr ymagwedd a amlinellwyd gan yr Ymgeisydd yn dderbyniol, mewn egwyddor. Cynghorodd yr Ymgeisydd i sicrhau bod ei ymagwedd yn ystyried y senario achos gwaethaf, ac felly y byddai unrhyw newid i ddyluniad y prosiect ar ôl i unrhyw ganiatâd gael ei roi yn lleihau'r effeithiau yn unig. Dylai senarios cronnol ystyried gosod seilbyst yn gydamserol a thanio Ordnans Heb Ffrwydro (UXO). Fodd bynnag, dylai'r Ymgeisydd wneud ymdrech i drafod a chytuno ar yr ymagwedd (gan gynnwys y Strategaeth Gosod Seilbyst ddrafft/ amlinellol) â chyrff ymgynghori perthnasol, gan gynnwys Natural England, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Sefydliad Rheoli Morol, a dylai gyfiawnhau'r ymagwedd a ddefnyddiwyd yn yr Adroddiad HRA.

Dylai unrhyw dybiaethau a ddefnyddiwyd wrth ddiffinio senarios achos gwaethaf perthnasol gael eu hesbonio yn y Datganiad Amgylcheddol.

Nid oedd yr Ymgeisydd yn gallu ymrwymo i gyflwyno Strategaeth Gosod Seilbyst ddrafft/ amlinellol gyda’r cais ar gyfer Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) ar yr adeg hon, ond cadarnhaodd y byddai’n ceisio ymgynghori ar y Strategaeth Gosod Seilbyst ddrafft cyn Archwiliad ac y byddai’n cael ei chyflwyno yn ystod yr Archwiliad. Cynghorodd yr Arolygiaeth fod Awdurdod Archwilio’n debygol o chwilio am dystiolaeth o ymgynghori â’r Cyrff Cadwraeth Natur Statudol ar gynnwys y Strategaeth Gosod Seilbyst ddrafft/ amlinellol a’u bod yn cytuno â hi.

Mae Adran 55 Deddf Cynllunio 2008 (y mae Rheoliad 5(2) Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009 yn cyfeirio ati) yn mynnu bod rhaid cyflwyno digon o wybodaeth gyda’r cais DCO i alluogi’r Ysgrifennydd Gwladol i wneud asesiad priodol o’r goblygiadau i safleoedd Ewropeaidd os bydd yn ofynnol gan Reoliad 48(1) y Rheoliadau Cynefinoedd. Mae’r Arolygiaeth yn cynghori os dibynnir ar y Strategaeth Gosod Seilbyst i liniaru effeithiau ar safle(oedd) Ewropeaidd, dylid darparu’r Strategaeth Gosod Seilbyst ddrafft/ amlinellol gyda’r cais DCO. Fel arall, mae’n bosibl na fydd y cais ar gyfer caniatâd datblygu’n cael ei dderbyn i’w Archwilio.

Os na ddibynnir ar y Strategaeth Gosod Seilbyst i liniaru effeithiau ar safle(oedd) Ewropeaidd, dylai’r Ymgeisydd gyflwyno Strategaeth Gosod Seilbyst ddrafft/amlinellol gyda’r cais DCO os oes modd, oherwydd bod posibilrwydd y bydd yr Awdurdod Archwilio’n gofyn amdani cyn i Archwiliad ddechrau.